OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2008 Rhif 3114 (Cy.276)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Grantiau Dysgu'r Cynulliad (Sefydliadau Ewropeaidd) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2008

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Grantiau Dysgu'r Cynulliad (Sefydliadau Ewropeaidd) (Cymru) 2008 ("y Prif Reoliadau").

Mae'r Prif Reoliadau yn darparu ar gyfer cymorth i fyfyrwyr cymwys sy'n dilyn cyrsiau dynodedig ym maes addysg uwch yng Nghanolfan Bologna, Coleg Ewrop neu'r Athrofa Brifysgol Ewropeaidd mewn perthynas â blwyddyn academaidd sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2008.

Mae'r Prif Reoliadau yn darparu bod grant at ffioedd ar gael ar gyfer un myfyriwr cymwys yng Nghanolfan Bologna. Mae grant at ffioedd, grantiau at gostau byw a chostau eraill, lwfans myfyrwyr anabl a grant ar gyfer dibynyddion ar gael ar gyfer hyd at ddau fyfyriwr cymwys yng Ngholeg Ewrop. Mae grantiau at gostau byw a chostau eraill, lwfans myfyrwyr anabl a grant ar gyfer dibynyddion ar gael ar gyfer un myfyriwr cymwys yn yr Athrofa Brifysgol Ewropeaidd.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r Prif Reoliadau er mwyn iddynt fod yn gymwys mewn cysylltiad â blwyddyn academaidd sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2009.

Mae rheoliadau 5 a 6 yn diwygio'r dyddiadau cau ar gyfer ceisiadau am gymorth ac i wybodaeth ariannol ddod i law mewn perthynas â blwyddyn academaidd, sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2009, ddod i law.

Mae rheoliadau 7 ac 8 a'r Atodlen i'r Rheoliadau hyn yn cynyddu symiau'r cymorth sy'n daladwy i fyfyrwyr

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2008 No. 3114 (W.276)

# EDUCATION, WALES

## The Assembly Learning Grants (European Institutions) (Wales) (Amendment) (No. 2) Regulations 2008

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Regulations)*

These Regulations amend the Assembly Learning Grants (European Institutions) (Wales) Regulations 2008 ("the Principal Regulations").

The Principal Regulations provide for support for eligible students taking designated higher education courses at the Bologna Center, the College of Europe or the European University Institute in respect of an academic year beginning on or after 1 September 2008.

The Principal Regulations provide that a grant for fees is available for one eligible student at the Bologna Center. A grant for fees, grants for living and other costs, a disabled students' allowance and a grant for dependants are available for up to two eligible students at the College of Europe. Grants for living and other costs, a disabled students' allowance and a grant for dependants are available for one eligible student at the European University Institute.

These Regulations amend the Principal Regulations in order that they apply in respect of an academic year beginning on or after 1 September 2009.

Regulations 5 and 6 amend the deadlines for applications for support and the receipt of financial information in relation to an academic year beginning on or after 1 September 2009.

Regulations 7 and 8 and the Schedule to these Regulations increase the amounts of support payable to

cymwys a throthwyon incwm cysylltiedig am flwyddyn academaidd sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2009.

Yn ychwanegol, mae rheoliadau 9 a 10 yn cywiro gwall teipograffyddol yn nhestun Cymraeg Rheoliadau Grantiau Dysgu'r Cynulliad (Sefydliadau Ewropeaidd) (Diwygio) 2008.

eligible students and related income thresholds for an academic year beginning on or after 1 September 2009.

In addition, regulations 9 and 10 correct a typographical error in the Welsh text of the Assembly Learning Grants (European Institutions) (Wales) (Amendment) Regulations 2008.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2008 Rhif 3114 (Cy.276)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Grantiau Dysgu'r Cynulliad (Sefydliadau Ewropeaidd) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2008

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *5 Rhagfyr 2008* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* | *8 Rhagfyr 2008* |
| *Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1* | |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 22, 42(6) a 43(1) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998(**1**), ac sydd bellach yn arferadwy ganddynt hwy(**2**) yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

(**1**) 1998 p.30; diwygiwyd adran 22 gan Ddeddf Dysgu a Medrau 2000 (p. 21), adran 146 ac Atodlen 11, Deddf Treth Incwm (Enillion a Phensiynau) 2003 (p. 1), Atodlen 6, Deddf Cyllid 2003 (p. 14), adran 147 a Deddf Addysg Uwch 2004 (p. 8), adrannau 42 a 43 ac Atodlen 7.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 22 o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 (ac eithrio i'r graddau y maent yn ymwneud â gwneud unrhyw ddarpariaeth a awdurdodir gan is-adran (2)(a), (c) (j) neu (k), (3)(e) neu (f) neu (5) o adran 22) i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adran 44 o Ddeddf Addysg Uwch 2004 ac mae Gorchymyn Deddf Addysg Uwch 2004 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaeth Drosiannol) (Cymru) 2005 (O.S. 2005/1833 (Cy.149) (C.79)), fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Addysg Uwch 2004 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaeth Drosiannol) (Cymru) (Diwygio) 2006 (O.S. 2006/1660 (Cy.159) (C.56)), yn cyfeirio at hyn. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraffau 30(1) a 30(2)(a) o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2008 No. 3114 (W.276)

# EDUCATION, WALES

## The Assembly Learning Grants (European Institutions) (Wales) (Amendment) (No. 2) Regulations 2008

| | |
|---|---|
| *Made* | *5 December 2008* |
| *Laid before the National Assembly for Wales* | *8 December 2008* |
| *Coming into force in accordance with regulation 1* | |

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred upon the Secretary of State by sections 22, 42(6) and 43(1) of the Teaching and Higher Education Act 1998(**1**), and now exercisable by them(**2**) make the following Regulations:

(**1**) 1998 c.30; section 22 was amended by the Learning and Skills Act 2000 (c. 21), section 146 and Schedule 11, the Income Tax (Earnings and Pensions) Act 2003 (c. 1), Schedule 6, the Finance Act 2003 (c. 14), section 147 and the Higher Education Act 2004 (c. 8), sections 42 and 43 and Schedule 7.

(**2**) The functions of the Secretary of State under section 22 of the Teaching and Higher Education Act 1998 (except so far as they relate to the making of any provision authorised by subsection (2)(a), (c), (j) or (k), (3)(e) or (f) or (5) of section 22) were transferred to the National Assembly for Wales by section 44 of the Higher Education Act 2004 and the Higher Education Act 2004 (Commencement No. 2 and Transitional Provision) (Wales) Order 2005 (S.I. 2005/1833 (W.149) (C.79)) as amended by the Higher Education Act 2004 (Commencement No. 2 and Transitional Provision) (Wales) (Amendment) Order 2006 (S.I. 2006/1660 (W.159) (C.56)) refers. The functions of the National Assembly for Wales were transferred to the Welsh Ministers by virtue of paragraphs 30(1) and 30(2)(a) of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006 (c. 32).

**Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli**

**1**.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Grantiau Dysgu'r Cynulliad (Sefydliadau Ewropeaidd) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2008.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (3) daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 31 Rhagfyr 2008.

(3) Mae Rheoliadau 7 ac 8 yn dod i rym ar 1 Medi 2009.

(4) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

**2**. Yn y Rheoliadau hyn ystyr "y Prif Reoliadau" ("*the Principal Regulations*") yw Rheoliadau Grantiau Dysgu'r Cynulliad (Sefydliadau Ewropeaidd) (Cymru) 2008(**1**).

**Diwygio'r Prif Reoliadau**

**3**. Mae'r Prif Reoliadau wedi'u diwygio'n unol â'r Rheoliadau hyn.

**4**.—(1) Mae Rheoliad 3 wedi'i ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn y diffiniad o "dyddiad perthnasol" ("*relevant date*"), yn lle "1 Chwefror 2008", rhodder "12 Ionawr 2009".

**5**.—(1) Mae Rheoliad 9 wedi'i ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff (3)—

(a) yn lle "1 Medi 2008", rhodder "1 Medi 2009"; a

(b) yn lle "28 Chwefror 2008", ym mhob man y mae'n ymddangos, rhodder "1 Chwefror 2009".

**6**.—(1) Mae Rheoliad 10 wedi'i ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn lle paragraff (17) rhodder—

"(17) Y dyddiad cau i wybodaeth ariannol ddod i law o ran blwyddyn academaidd sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2009 yw 1 Chwefror 2009 neu, yn achos grantiau sy'n daladwy o dan reoliadau 20(7) a 22(6), 1 Chwefror 2010.".

**7**.—(1) Mae Rheoliad 22 wedi'i ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn lle paragraff (3), rhodder—

"(3) Mae myfyriwr Athrofa Brifysgol Ewropeaidd yn cymhwyso i gael grant at gostau byw o 17,640 ewro o ran blwyddyn academaidd sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2009.".

(**1**) O.S. 2008/18 (Cy.7), fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2008/1324 (Cy.137).

**Title, commencement, application and interpretation**

**1**.—(1) The title of these Regulations is the Assembly Learning Grants (European Institutions) (Wales) (Amendment) (No. 2) Regulations 2008.

(2) Subject to paragraph (3) these Regulations come into force on 31 December 2008.

(3) Regulations 7 and 8 come into force on 1 September 2009.

(4) These Regulations apply in relation to Wales.

**2**. In these Regulations, "the Principal Regulations" ("*y Prif Reoliadau*") means the Assembly Learning Grants (European Institutions) (Wales) Regulations 2008(**1**).

**Amendment of the Principal Regulations**

**3**. The Principal Regulations are amended in accordance with these Regulations.

**4**.—(1) Regulation 3 is amended as follows.

(2) In the definition of "relevant date" ("*dyddiad perthnasol*"), for "1 February 2008", substitute "12 January 2009".

**5**.—(1) Regulation 9 is amended as follows.

(2) In paragraph (3)—

(a) for "1 September 2008", substitute "1 September 2009"; and

(b) for "28 February 2008" in each place it appears, substitute "1 February 2009".

**6**.—(1) Regulation 10 is amended as follows.

(2) For paragraph (17) substitute—

"(17) The deadline for receipt of financial information in relation to an academic year beginning on or after 1 September 2009 is 1 February 2009, or in the case of grants payable under regulations 20(7) and 22(6), 1 February 2010.".

**7**.—(1) Regulation 22 is amended as follows.

(2) For paragraph (3), substitute—

"(3) A European University Institute student qualifies for a grant for living costs of 18,099 euro in relation to an academic year beginning on or after 1 September 2009.".

(**1**) S.I. 2008/18 (W.7), as amended by S.I. 2008/1324 (W.137).

**8**. Effaith yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn yw rhoi'r ffigurau yn nhrydedd golofn y tabl yn lle'r ffigurau yn ail golofn y tabl lle maent yn ymddangos yn narpariaethau'r Prif Reoliadau sydd wedi'u gosod yn y golofn gyntaf.

**Diwygio Rheoliadau Grantiau Dysgu'r Cynulliad (Sefydliadau Ewropeaidd) (Cymru) (Diwygio) 2008**

**9**. Mae Rheoliadau Grantiau Dysgu'r Cynulliad (Sefydliadau Ewropeaidd) (Cymru) (Diwygio) 2008(**1**) wedi'u diwygio'n unol â rheoliad 10.

**10**. Yn nhestun Cymraeg rheoliad 3, hepgorer y geiriau "a Benthyciadau".

**8**. The Schedule to these Regulations has effect to substitute the figures in the third column of the table for the figures in the second column of the table where they appear in the provisions of the Principal Regulations set out in the first column.

**Amendment of the Assembly Learning Grants (European Institutions) (Wales) (Amendment) Regulations 2008**

**9**. The Assembly Learning Grants (European Institutions) (Wales) (Amendment) Regulations(**1**) are amended in accordance with regulation 10.

**10**. In the Welsh text of regulation 3, omit "a Benthyciadau".

*Jane Hutt*

Y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, un o Weinidogion Cymru

Minister for Children, Education, Lifelong Learning and Skills, one of the Welsh Ministers

5 Rhagfyr 2008

5 December 2008

(**1**) O.S. 2008/1324 (Cy.137).

(**1**) S.I. 2008/1324 (W.137).

## YR ATODLEN

Rheoliad 8

## CYFRADDAU TALU NEWYDD A THROTHWYON INCWM NEWYDD

| *Y ddarpariaeth yn y Prif Reoliadau* | *Y ffigur presennol* | *Y ffigur newydd* |
|---|---|---|
| **Rheoliad 25** | | |
| 25(2) | £10,000 | £10,260 |
| **Rheoliad 27** | | |
| 27(2) | £3,705 | £3,801 |
| **Rheoliad 28** | | |
| 28(a) | £2,580 | £2,647 |
| 28(b) | £2,580 | £2,647 |
| **Rheoliad 29** | | |
| 29(3) | £1,470 | £1,508 |
| **Rheoliad 30** | | |
| 30(6)(a) | £1,130 | £1,159 |
| 30(6)(b) | £3,385 | £3,473 |
| 30(6)(c) | £4,515 | £4,632 |
| 30(6)(ch) | £4,515 | £4,632 |
| 30(6)(d) | £5,650 | £5,797 |
| **Atodlen 3 Rhan 2** | | |
| Paragraff 2(3) | £1,100 | £1,130 |
| Paragraff 4(2)(c) | £1,075 | £1,130 |
| Paragraff 7(2)(a) | £9.50 | £9.27 |
| Paragraff 7(3)(a) | £9.50 | £9.27 |
| Paragraff 7(4) | £7,800 | £7,997 |
| Paragraff 7(5)(i) | £7,800 | £7,997 |

## SCHEDULE

Regulation 8

## NEW PAYMENT RATES AND INCOME THRESHOLDS

| *Provision in the Principal Regulations* | *Existing figure* | *New figure* |
|---|---|---|
| **Regulation 25** | | |
| 25(2) | £10,000 | £10,260 |
| **Regulation 27** | | |
| 27(2) | £3,705 | £3,801 |
| **Regulation 28** | | |
| 28(a) | £2,580 | £2,647 |
| 28(b) | £2,580 | £2,647 |
| **Regulation 29** | | |
| 29(3) | £1,470 | £1,508 |
| **Regulation 30** | | |
| 30(6)(a) | £1,130 | £1,159 |
| 30(6)(b) | £3,385 | £3,473 |
| 30(6)(c) | £4,515 | £4,632 |
| 30(6)(d) | £4,515 | £4,632 |
| 30(6)(e) | £5,650 | £5,797 |
| **Schedule 3, Part 2** | | |
| Paragraph 2(3) | £1,100 | £1,130 |
| Paragraph 4(2)(c) | £1,075 | £1,130 |
| Paragraph 7(2)(a) | £9.50 | £9.27 |
| Paragraph 7(3)(a) | £9.50 | £9.27 |
| Paragraph 7(4) | £7,800 | £7,997 |
| Paragraph 7(5)(i) | £7,800 | £7,997 |

© Hawlfraint y Goron 2008

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2008

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2008 Rhif 3114 (Cy.276)

## ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Grantiau Dysgu'r Cynulliad (Sefydliadau Ewropeaidd) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2008

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2008 No. 3114 (W.276)

## EDUCATION, WALES

The Assembly Learning Grants (European Institutions) (Wales) (Amendment) (No. 2) Regulations 2008

**£5.00**

W402/12/08 ON